Rôl y Tîm Dirprwyaeth

Tachwedd 2019

Mae'r Tîm yn darparu cymorth arbenigol i bobl ddiamddiffyn yr ystyrir nad ydynt yn gallu rheoli eu harian eu hunain yn feddyliol neu'n gorfforol.

Gellir darparu'r gefnogaeth i bobl sy'n byw yn:

- eu cartrefi eu hunain
- lleoliadau tai gyda chefnogaeth
- Cartrefi Preswyl a Nyrsio
- prosiectau byw yn y gymuned

Rhaid i'r holl bobl sy'n cael eu cyfeirio fod yn derbyn gwasanaethau trwy Bortffolio Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint.

Diffiniad o rolau:

Penodedigion

Rôl Penodai fel y'i diffinnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yw:

- **Hawlio a derbyn buddion nawdd cymdeithasol, pensiynau a lwfansau a Chredydau Treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.**

Rhaid i unrhyw arian sy'n cael ei dderbyn gan y Penodai gael ei ddefnyddio er lles eu hunain neu eu dibynnydd, megis talu am ffioedd nyrsio neu gartref gofal neu ffioedd ofal cartref a chwrdd â chostau byw arferol.

Nid yw'r rôl hon yn darparu unrhyw awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y person.

Mewn achosion lle mae person yn byw mewn llety wedi ei rentu, mae'n bosib i'r Tîm Budd-Daliadau sicrhau fod y rhent yn cael ei dalu ar eu rhan.

Nid yw Penodeiaeth yn rhoi'r awdurdod i arwyddo cytundebau tenantiaeth.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.
This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Penodedigion

Dylid gwneud cais am Benodeiaeth os:

- yw'r person dros 18 mlwydd oed
- nad oes gan y person y gallu i reoli eu harian
- nad oes unrhyw unigolyn arwyddocaol arall i gynorthwyo
- nad oes ganddynt unrhyw gynilon neu incwm arall megis pensiwn galwedigaethol
- nad ydynt yn berchen ar eiddo

Nodwch os gwelwch yn dda mai'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n penderfynu pwy yw'r person mwyaf addas i weithredu fel Penodai.

Yn dilyn cymeradwyaeth i weithredu fel Penodai Corfforaethol, mae'r aelod tîm yn dod yn gyfrifol am unrhyw gerbyd sy'n cael ei roi drwy'r Cynllun Motability gan fod hwn yn gysylltiedig ag elfen Symudedd Lwfans Byw I'r Anabl. (Cyfeiriwch at y ddogfen ar wahân sy'n ymwneud â'r broses Archebu Cerbyd Motability).

NODER – NI ALL PENODAI:

- Arwyddo Cytundeb Tenantiaeth
- Agor cyfrif banc personol ar ran cleient
- Gau cyfrif banc personol ar ran cleient
- Gysylltu gyda banc ar ran cleient
- Newid nac agor Rheolau Sefydlog neu Ddebyd Uniongyrchol sy'n ymwneud â chyfrif personol cleient.
- Bod yn gyfrifol am ddyledion sy'n dyddio cyn y Benodeiaeth.
- Gwerthu eiddo
- Cwblhau dogfennaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gofyn am gyflwr neu allu corfforol neu feddyliol cleient.
- Mynychu apeliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau heb gwmni Gweithiwr Cymdeithasol neu Swyddog Adolygu.
- Dewis Cerbyd Motability

Dirprwyaeth

Gwneir ceisiadau am Orchmynion Llys Gwarchod drwy'r Llys Gwarchod sy'n un o swyddfeydd Y Goruchaf Lys gydag awdurdodaeth yng Nghymru a Lloegr.

Gwneir cais am Orchymyn sy'n enwi Cyfarwyddwr Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel y Dirprwy dros Eiddo a Materion penodedig os:

- nad oes gan y person y gallu i reoli eu heiddo a materion ariannol
- yw'r person dros 18 mlwydd oed
- oes ganddynt gynilon neu incwm yn ychwanegol i'w budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau.
- nad oes unrhyw unigolyn arwyddocaol arall i gynorthwyo
- ydynt efallai yn berchen ar eiddo hefyd

Mae'r Gorchymyn Llys yn rhoi'r awdurdod i Bortffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud penderfyniadau ar ran y person nad ydynt yn gallu eu gwneud eu hunain oherwydd eu hanalluogrwydd meddyliol. Mae hyn yn cynnwys:

- derbyn pob incwm a rheoli'r holl gyfrifon banc,
- arwerthiant eiddo,
- cytundebau tenantiaeth,
- gwaredu arian a gwneud rhoddion.
- Mae gan y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod i arwyddo unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag eiddo a materion yr unigolyn.

Er mwyn gwneud cais am Ddirprwyaeth, mae'n hanfodol fod ffurflen COP3 Asesiad o Allu, yn cael ei gwblhau gan Weithiwr Cymdeithasol fel arfer. Bydd y ffurflenni sy'n weddill, COP1 a COP1a yn cael eu cwblhau gan aelod o'r tîm gyda gwybodaeth gefnogol gan y Gweithiwr Cymdeithasol neu Swyddog Adolygu.

Mae ffi o £400 yn daladwy i'r Llys wrth wneud cais a chost o £775 yn daladwy i Gyngor Sir y Fflint ar ôl derbyn y Gorchymyn. Mae costau blynyddol yn berthnasol wedyn yn ddibynnol ar incwm ac arbedion. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i newid gan y Llys.

Mwy o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Dirprwyaeth ar 01352 702520.